YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

# MAE EICH ANGEN AR Y CRA

Mae CRA Bryn Tawe wedi bod yn hynod o lwyddiannus yn codi arian er mwyn cefnogi addysg a phrofiadau disgyblion yr ysgol. Mae hefyd yn gyswllt amhrisiadwy i rieni rhwng yr ysgol a chartref wrth i'ch plentyn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Trwy haelioni, cymorth a gwaith caled disgyblion, rieni a staff, mae'r CRA wedi llwyddo i godi miloedd o bunnoedd i gyfrannu tuag at eitemau megis, bws mini, piano, cit drumiau, ipads, cit chwaraeon, nwyddau ar gyfer celf a thechnoleg bwyd a nifer o bethau eraill !!

Mae'r CRA angen aelodau newydd a gwirfoddolwyr ar gyfer y flwyddyn newydd. Gwahoddir rhieni, gwarchodwyr neu unrhyw aelod o'r teulu i ddod yn aelod o'r CRA. Gofynnwn yn garedig i chi gefnogi ysgol eich plentyn mewn unrhyw fodd y gallwch. Yn dilyn toriadau cyllidol y Sir, mae cefnogaeth y CRA yn hanfodol i gefnogi'r Ysgol.

Os oes gennych amser i wirfoddoli mewn gweithgareddau amrywiol, cyfrannu eitemau ar gyfer y raffl neu os oes gennych unrhyw sgiliau gallwch rannu gyda'r CRA, cysylltwch ag aelod o bwyllgor y CRA trwy Swyddfa'r Ysgol. Byddai'n braf eich gweld yng nghyfarfod blynyddol y CRA ar nos Lun 18fed o Fedi am 6.30 y.h. yn Neuadd Fawr yr ysgol.(Defynddiwch mynediad canolfan hamdden).

Diolch o flaen llaw am eich cefnogaeth.

| | |
|---|---|
| Mr Simon Davies | Mrs Liz Bevan |
| PENNAETH | CADEIRYDD Y CRA |

**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE**
**Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU**
**Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601**
**E-Bost: YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk**
**Pennaeth: Mr Simon Davies**

YSGOL RYGBI · SCHOOL OF RUGBY · WRU
YSGOL SY'N PARCHU HAWLIAU · UNICEF
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur